Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Recriwtio a Chadw Darpar-Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA

## Cynllun gweithredu:
## Mehefin 2022 – Mehefin 2025

**Dr Victoria Anderson & Rachel Bendall**

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Cynnwys


**Cyflwyniad** ........ 3

**Cyd-destun** ........ 4

**Ein cyd-destun heddiw** ........ 6

**Deall ein Cynllun Gweithredu** ........ 7

**Cynllun Gweithredu** ........ 9

**Cyfeiriadau** ........ 21


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

200 1822 - 2022

Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Cyflwyniad

Crëwyd y ddogfen hon o ganlyniad i fenter Mentor Cymunedol Llywodraeth Cymru mewn ymateb i rai o'r materion a'r argymhellion a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2021) ac adroddiad terfynol yr Athro Charlotte Williams ar *Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd* (Llywodraeth Cymru, 2021). Ei diben yw nodi camau gweithredu penodol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar recriwtio darpar athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'n rhaglen TAR cynradd ac uwchradd a'n rhaglen BA addysg gynradd gyda SAC yma ym Mhartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA), Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).

Mae cyd-destunoli'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen hon wedi bod yn allweddol i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r sefyllfa bresennol o ran recriwtio a chadw darpar athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, lle mae angen inni fod a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno. Rydym wedi penderfynu rhannu cyd-destun hanesyddol ein sefydliad yn rhannol fel ffordd o agor trafodaethau ynghylch adfer a gwneud iawn, ond yn bennaf fel ffordd o ddangos ein hymrwymiad i ddysgu o hanes fel bod ein cynlluniau a'n gweithredoedd ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder hîl a chymdeithasol. Yn ogystal â dysgu gwersi o gyd-destun hanesyddol ein sefydliad, ceisiwyd hefyd ddysgu o strategaethau a chamau gweithredu ymhellach i ffwrdd. Mae profiadau addysgwyr a llunwyr polisi yn UDA, yn enwedig y rhaglenni *Grow-Your-Own* fel y'u gelwir (Aguilar, 2020; Master and Doss, 2022), wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth lywio ein dewisiadau.

Dylid ystyried ein cynllun gweithredu felly fel penllanw'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn ystod y misoedd diwethaf fel rhan o'r fenter hon gan Lywodraeth Cymru, ac yn gam cyntaf yn ein hymrwymiad i wneud y gweithlu addysg yma yng Nghymru yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Cyd-destun

Yn 2022, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn dathlu ei daucanmlwyddiant. Sefydlwyd Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan - fel y'i gelwid yn wreiddiol - ar 12 Awst 1822, yn ganlyniad ffisegol ar ffurf brics a morter i'r llu o roddion elusennol a dyngarol a gyfrannwyd, a ffrwyth meddwl yr Esgob Thomas Burgess yn bennaf. 12 Awst oedd dyddiad pen-blwydd y Brenin a deyrnasai ar y pryd; ond ar ben-blwydd Burgess, 18 Tachwedd, y mae'r Brifysgol yn dathlu ei gwreiddiau fel y brifysgol hynaf yng Nghymru.

Roedd Thomas Burgess yn ddiddymwr cynnar. Ganed ef ym 1756, ac roedd yn ysgolhaig clasurol a benodwyd, ym 1782, i rôl academaidd ym Mhrifysgol Rhydychen. Saith mlynedd yn ddiweddarach - ac yntau'n ddim ond 32 oed – ysgrifennodd Burgess *Considerations on the Abolition of Slavery and the Slave Trade, Upon Grounds of Natural, Religious, and Political Duty*. Roedd gwaith Burgess yn ymateb angerddol i lyfr y Parchedig Raymund Harris, *Scriptural Researches on the Licitness of the Slave Trade*, llyfr a geisiai gyfiawnhau caethwasiaeth ar y sail ei fod yn cael ei ganiatáu yn y Beibl, Condemniodd Burgess ddadleuon Harris fel rhai 'gau', a chododd gwestiynau difrifol am gaethwasiaeth fel cysyniad a chynllwynion neilltuol o ffiaidd caethwasiaeth India'r Gorllewin.

Erbyn 1803 nid oedd caethwasiaeth wedi ei ddileu o hyd, ac roedd Burgess wedi'i benodi i swydd Esgob Tyddewi. Yno dechreuodd ar fywyd newydd yn Ne-orllewin Cymru, ond pryderai am gyflwr y clerigwyr lleol; gwelodd nad oeddent wedi cael addysg dda ac nad oeddent wedi'u paratoi'n dda am eu rolau. Dechreuodd Burgess weithredu cyfres o ddiwygiadau a fyddai'n galluogi darpar glerigwyr i gael mynediad at addysg briodol drwy ysgolion, llyfrgelloedd, ysgoloriaethau a gwobrau. Erbyn 1810 roedd ganddo weledigaethau o sefydlu coleg ar gyfer clerigwyr ifanc, ac roedd cymwynaswyr eisoes yn cyfrannu arian a llyfrau ar gyfer y datblygiad oedd gan Burgess yn ei ddychymyg. Ond byddai'n ddeuddeng mlynedd arall cyn i unrhyw goleg o'r fath ddod i fodolaeth, ac erbyn hynny roedd Burgess bron yn 65 oed a'r safle wedi ei newid i Lambed (Harford, 1840).

Roedd addysg glerigol yn agos at galon Burgess. Hyd yn oed yn 1789, pan ysgrifennodd ei draethawd ar ddileu caethwasiaeth, roedd ganddo weledigaethau o addysgu myfyrwyr Affricanaidd a allai fynd ymlaen i gyflawni gwaith cenhadol yn Affrica; gan ddyfalu y byddai'r 'hyfforddwyr hyn, mae'n debyg, yn mynegi eu gwersi mewn modd a fyddai'n cyd-fynd yn well ag amgyffrediad meddwl Affricanaidd, na chyfarwyddiadau unrhyw athro Ewropeaidd'. Er na fyddem i gyd yn rhannu sêl genhadol Burgess efallai, mae ei ffordd o feddwl yn cyd-fynd yn llwyr â'r fenter bresennol i recriwtio mwy o athrawon a darpar athrawon o gefndiroedd ethnig leiafrifol; i gynrychioli'n well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, wrth inni symud tuag at y nod a ddymunir o Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030 (Llywodraeth Cymru, 2022a).

Ac eto nid yw stori dechreuadau Coleg Dewi Sant mor syml â hynny. Mae'r ffaith fod gan rai o'i gymwynaswyr gysylltiadau agos nid yn unig â'r fasnach gaethweision, ond â'r East India Company, yn taflu cysgod dros bethau. Roedd cyfraniadau Thomas Phillips, er enghraifft, at ddechreuadau'r coleg yn broblemus gan yr oedd ganddo gysylltiadau â chaethwasiaeth (Scott, 2020). Dychwelodd Phillips i Gymru ym 1817. Bedair blynedd yn ddiweddarach prynodd blanhigfa siwgr ar un o ynysoedd y Caribï, St. Vincent. Erbyn hynny roedd masnach gaethweision yr Iwerydd wedi cael ei dileu gan Ddeddf

1807, ond nid felly caethwasiaeth ar yr ynysoedd eu hunain; felly cafodd Phillips 85 o gaethweision o ynys gyfagos Carriacou. Pan ddilëwyd caethwasiaeth ei hun yn ystod y degawd canlynol fe'i digolledwyd am golli 167 o gaethweision gwerth £4737 - ymhell dros £300,000 yn arian heddiw (UCL Department of History, 2022). Wrth gwrs fe gadwodd ei ystâd yn St. Vincent, ar adeg pan y gorfodwyd y rhan fwyaf o gyn-gaethweision i 'ennill' eu rhyddid drwy weithio yn rhad ac am ddim dan y system brentisiaethau. Pan fu farw Phillips yn 1851 fe'i cofiwyd am ei ddyngarwch hael – fe'i disgrifiwyd fel un 'haelfrydig , cymwynasgar ac elusengar, rhadlon a charedig' ei natur. Gwnaeth y 'cyfrannwr parchus' adael ysgoloriaethau, degau o filoedd o lyfrau gwerthfawr ac eiddo gwerth £6000 i Goleg Dewi Sant – sy'n cyfateb i ryw £500,000 mewn arian modern. Bu farw Thomas Burgess ei hun ym 1837. Mae'n fater o ddyfalu a fyddai ef wedi cymeradwyo rhoddion o'r fath.

Yn gynharach eleni croesawodd y Drindod Dewi Sant 37 o fyfyrwyr o St. Vincent i ddilyn ysgoloriaethau mewn meysydd yn amrywio o Beirianneg Sifil a Hanes i Addysg Plentyndod Cynnar. Yn y cyfamser, bu dyfalu ymhlith sylwebwyr yn ôl yn St. Vincent ynghylch a oedd hon yn weithred gan y brifysgol i wneud iawn am y gorffennol – neu ddim ond cyd-ddigwyddiad, o gofio'r cysylltiadau tywyll â Thomas Phillips. Nododd yr hanesydd a'r colofnydd papur newydd o St Vincent, Dr Adrian Fraser fod 'llawer o bobl St Vincent yn llugoer i'r mater o wneud iawn gan ei weld yn syml fel cyfle i drosglwyddo arian i'r rhai sy'n dal swyddi gwleidyddol i'w ddefnyddio fel y gwelant yn dda. Ond nid yw'r mater mor syml â hynny... un o'r llwybrau posibl ar gyfer gwneud iawn yw drwy gynnig cyfleoedd addysgol i fyfyrwyr o wledydd a fu drwy gyfnod erchyll caethwasiaeth' (Fraser, 2022).

Sy'n dod â ni'n ôl at heddiw. Mae'r penderfyniad i gynyddu nifer y darpar athrawon Du ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn fenter gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ddyddiau cynnar iawn ar y cynllun. I gyd-fynd â'r fenter hon mae cynllun cyllido newydd uchelgeisiol sydd â'r nod o recriwtio a chefnogi darpar athrawon o leiafrifoedd ethnig, ac mae'r Drindod Dewi Sant, ynghyd â phum prifysgol arall yng Nghymru, wedi bod yn rhan o'r cyfnod cychwynnol o ymgynghori a llunio cynllun gweithredu. Mae'n ymddangos yn gyd-ddigwyddiad ffodus fod y fenter hon gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â daucanmlwyddiant y brifysgol; ond ni ddylem dwyllo ein hunain ynglŷn ag anhawster y dasg sydd o'n blaenau.

Wrth i ni ddechrau ar y daith hon, da o beth fyddai edrych ar esiampl gwledydd eraill, ar eu llwyddiannau a'u methiannau; gan ymrwymo ar yr un pryd i fod yn dryloyw ac i hunan-archwilio'n drylwyr drwy gydol y cyfnod sydd o'n blaen. Efallai bod rhywbeth am y system addysg sy'n atgynhyrchu dynameg pŵer yn anfeirniadol, yn debyg, i raddau, i algorithm cyfrifiadurol. Mae'n rhaid i ni gael ein llygaid yn agored i'r rhwystrau o'n blaenau. Ond nid yw'r posibilrwydd o fethu yn golygu na ddylen ni roi cynnig arni. I'r gwrthwyneb; rhaid i'n methiannau ein symbylu i lwyddo.

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Ein cyd-destun heddiw

Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, nododd tua 2.9% o'n darpar athrawon eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur cenedlaethol ar gyfer AGA yng Nghymru (James a Fitt, 2022), tra bod gan yr ardaloedd Awdurdodau Lleol a wasanaethir gan ein hysgolion partneriaeth boblogaethau disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn amrywio o 5% i bron i 17%. Y diffyg cynrychiolaeth o ddarpar athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn ein rhaglenni AGA fu'r prif yrrwr ar gyfer y camau gweithredu a amlinellir yn ein cynllun, a'n nod cyffredinol yw recriwtio carfannau o ddarpar athrawon i fod yn fwy cynrychioliadol o'r ganran o ddisgyblion Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig o fewn y boblogaeth ddysgwyr. Bydd hyn yn dod ag ef yn fras yn unol â chanran gyffredinol y disgyblion o leiafrifoedd ethnig ledled Cymru, sef ychydig dros 11% ar hyn o bryd (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Rhannwyd arolwg ymadael Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn canolbwyntio'n benodol ar faterion hil ac ethnigrwydd gyda darpar athrawon TAR cynradd ac uwchradd ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021-22. Roedd yr ymatebion yn gwbl ddienw ac yn cynnwys ystod o gwestiynau a fwriadwyd i fesur gwahanol fesuriadau o foddhad â'r cwrs a'u profiadau ar leoliad, yn ogystal â data demograffig. Y gobaith oedd sefydlu rhywfaint o ddata gwaelodlin fel y gellir ailadrodd yr arolwg a'i fireinio yn y blynyddoedd dilynol, yn ogystal â'i ddefnyddio i lywio ymagweddau cyfredol at gwestiwn amrywiaeth. Mae ymatebion darpar athrawon wedi'u defnyddio i lywio ein cynllun gweithredu a byddant yn llywio agweddau eraill ar waith ein rhaglenni wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cynnwys sut yr ydym ni fel partneriaeth dysgu proffesiynol yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag agweddau hiliol, homoffobig a thrawsffobig a ddangosir gan rai athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill. Cafodd digwyddiadau o'r fath eu profi a'u gweld gan nifer o'r ymatebwyr wrth ymgymryd â'u profiad addysgu proffesiynol mewn ysgolion.

Yn ogystal â'n data rhaglen-benodol, mae ein cynllun gweithredu hefyd wedi'i osod yng nghyd-destun ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2021-2024 ar gyfer y brifysgol gyfan, ac argymhellion sydd wedi'u cyflwyno i ddarparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ar lefel genedlaethol.

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Deall ein Cynllun Gweithredu

Mae'r canlynol yn ganllaw byr i ddeall ein cynllun gweithredu a'r meddylfryd y tu ôl iddo.

**Meysydd blaenoriaeth**

Wedi'i nodi yn dilyn mewnbwn gan amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys ein tîm derbyn, darpar athrawon, tiwtoriaid cwricwlwm, ein tîm strategol partneriaethau a'n tîm strategol taith a phrofiad myfyrwyr. Mae'r pum maes yn darparu camau gweithredu trosfwaol cofiadwy sy'n categoreiddio'r pwyntiau gweithredu mwy manwl yn ein cynllun. Mae'r camau gweithredu trosfwaol hyn hefyd yn cysylltu â thri maes ymrwymiad - diwylliant, profiad, canlyniadau - fel y nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2021-2024.

**Gweithredoedd**

Mae penderfyniadau a wneir yma yn seiliedig ar ddata a gasglwyd trwy arsylwadau, sgyrsiau ac archwiliadau ynghylch gweithredu (a pheidio â gweithredu) mewnol ac allanol yn y gorffennol a'r presennol. Maent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chyd-destun penodol ein sefydliad.

**Pwy?**

Mae timau, adrannau, ac aelodau unigol o staff wedi'u henwi yma i gyflwyno elfennau o eglurder, cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Y disgwyl yw y bydd timau, adrannau ac aelodau unigol o staff yn nodi'n fanylach sut y bwriedir cyflawni pob pwynt gweithredu yn effeithiol.

**Erbyn pryd?**

Mae graddfa amser yn angenrheidiol er mwyn gallu monitro cynnydd a chwblhau pob pwynt gweithredu. Mae rhai camau gweithredu wedi'u nodi fel materion i fynd i'r afael â nhw yn y tymor byr (rhwng nawr a 2023); tymor canolig (rhwng nawr a 2024); a hirdymor (rhwng nawr a 2025, a thu hwnt). Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun gweithredu hwn yn fan cychwyn ar gyfer ymrwymiad tymor hwy o lawer.

**Pwyntiau adolygu**

Mae'r rhain wedi'u nodi i sicrhau bod cynnydd nid yn unig yn cael ei fonitro, ond ei fod yn cael ei werthuso a'i adolygu. Mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn yrwyr allweddol yma; fodd bynnag, mae'r rhain hefyd yn ddangosyddion o ansawdd y ddarpariaeth a gynigiwn i'n hathrawon dan hyfforddiant, ynghyd â'u profiadau a'u canlyniadau. Bydd pwyntiau adolygu yn cynnwys y gofyniad i dimau, adrannau ac aelodau unigol o staff adrodd ar y cynnydd a wnaed yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd gan ddarpar athrawon, staff a phartneriaid ysgol.

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

**Meini prawf llwyddiant**

Rydym wedi penderfynu bod 10% o'n darpar athrawon yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig fel targed uchelgeisiol ond realistig i weithio tuag ato yn ystod cylch bywyd y cynllun gweithredu hwn. Rydym hefyd wedi penderfynu nad yw methu â chyrraedd y targed hwn yn gyfystyr â methiant. I'r gwrthwyneb, rydym wedi a byddwn yn parhau i bwysleisio arwyddocâd y gwaith hwn fel cam cyntaf tuag at newid.

**Cynnydd**

Defnyddir dull graddio coch, ambr, gwyrdd yma fel bod cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) yn weladwy. Bydd manylion ynghylch lle mae cynnydd wedi'i wneud a lle nad yw wedi'i wneud yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau cynnydd a roddir ar bob pwynt adolygu.

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Cynllun Gweithredu

| Maes Blaenoriaeth | Cam Gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? | Pwyntiau Adolygu | Meini Prawf Llwyddiant | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diwylliant** | Creu diwylliant campws cynhwysol sy'n hwyluso ymdeimlad o berthyn ac sy’n hyrwyddo parch at fyfyrwyr a staff a'r gymuned ehangach | | | | | |
| Recriwtio | ➢ Adnabod athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws ein hysgolion Partneriaeth a’u cynnwys yn ein panel o gyfwelwyr i gefnogi ac arwain cyfweliadau | ➢ Tîm Derbyn Thîm Strategol y Bartneriaeth<br>➢ Tîm Marchnata’r Brifysgol | Hydref 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023 | ➢ Panel mwy amrywiol o gyfwelwyr.<br>➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy’n ymgymryd â’u cynnig am le. | |
| | | | | Ebrill 2023 | | |
| | | | | Gorffennaf 2023 | | |
| | ➢ Adolygu ein deunyddiau ar gyfer Diwrnodau/ Nosweithiau Agored i adnabod meysydd lle gellir cynnwys ac amlygu mwy o ffocws ar gyfiawnder cymdeithasol a hiliol, a'r | ➢ Cyfarwyddwr AGA<br>➢ Tîm Marchnata’r Brifysgol | Medi 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023 | ➢ Deunyddiau mwy perthnasol a chynhwysol yn cael eu rhannu gydag ymgeiswyr.<br>➢ Adborth cadarnhaol gan | |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
200 1822 - 2022
Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mathau o gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i ddarpar athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cam cyntaf cadarnhaol fydd cynnwys gwybodaeth ynghylch cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol pan gaiff ei chyhoeddi | | | Ebrill 2023<br>Gorffennaf 2023 | ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | ➢ Darparu gwybodaeth fwy penodol a manwl am ba gymorth sydd ar gael i ddysgu Cymraeg ac asesu cynnydd yn yr iaith. Y rheswm am hyn yw oherwydd gallai fod | ➢ Rhagoriaith<br>➢ Y Tîm Derbyn<br>➢ Cyfarwyddwr AGA | Medi 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023 | ➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhai darpar ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd â Saesneg yn Iaith Ychwanegol, a allai ystyried dysgu Cymraeg yn rhwystr ychwanegol rhag ymgeisio (yn 2020/21, roedd 30,770 o ddisgyblion rhwng 5 a 19 oed yng Nghymru oedd ag iaith gyntaf heblaw Cymraeg a Saesneg - statswales.gov.wales | | | Ebrill 2023 | ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | | | | Gorffennaf 2023 | | |
| | ➢ Cyhoeddi blog trwy Addysgwyr Cymru, Dysg a blog Yr Athrofa yn rhannu'r gwaith mae'r elfen AGA o fewn yr Athrofa wedi bod yn ei wneud gyda'n Mentor Cymunedol. | ➢ Dr Vicky Anderson<br>➢ Rachel Bendall<br>➢ Marchnata | Medi 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023 | ➢ Rhannu'r blog drwy amrywiol sianeli, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol ac ysgolion Partneriaeth.<br>➢ Cyfeiriadau at y blog gan ymgeiswyr yn eu hadborth.<br>➢ Blog dilynol i rannu cynnydd ac arfer da | |
| | | | | Ebrill 2023 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gorffennaf 2023 | gydag eraill.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | ➢ Diweddaru gwefan AGA Yr Athrofa (TAR a BA Add) i fod yn fwy cynrychiadol, cynhwysol ac amrywiol, ac i amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys bwrsarïau Llywodraeth Cymru. | ➢ Tîm Strategol Profiad a Thaith y Myfyrwyr<br>➢ Marchnata<br>➢ Gwasanaethau Myfyrwyr<br>➢ Undeb y Myfyrwyr | Hydref 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023 | ➢ Deunyddiau mwy perthnasol a chynhwysol yn cael eu rhannu gydag ymgeiswyr.<br>➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | | | | Ebrill 2023 | | |
| | | | | Gorffennaf 2023 | | |

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ➢ Llunio cynllun marchnata a'i roi ar waith fesul cam i dargedu marchnata cyrsiau AGA a chyrsiau eraill (e.e. Gradd Sylfaen wedi'i hanelu at raglenni israddedig ac ôl-raddedig i Gynorthwywyr Addysgu/Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn y Drindod Dewi Sant, gan gynnwys ein campysau yn Birmingham a Llundain (sydd â niferoedd uwch o fyfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol na'n campysau yn Abertawe, Caerfyrddin a Llambed) a Choleg Sir Gâr. | ➢ Marchnata<br>➢ Undeb y Myfyrwyr<br>➢ Cyfarwyddwr AGA<br>➢ Tîm Strategol Profiad a Thaith y Myfyrwyr | Hydref 2022 (Tymor canolig) | Ionawr 2023 | ➢ Cynllun marchnata clir ar waith.<br>➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | | | | Ebrill 2023 | | |
| | | | | Gorffennaf 2023 | | |
| | ➢ Llunio cynllun marchnata a'i roi ar waith fesul cam i dargedu disgyblion Du, | ➢ Tîm y Bartneriaeth a Thîm Strategol Profiad a Thaith | Hydref 2022 (Tymor canolig) | Ionawr 2023 | ➢ Cynllun marchnata clir ar waith.<br>➢ Adborth | |

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein hysgolion Partneriaeth ac ysgolion nad ydynt yn rhan o'r bartneriaeth (Blynyddoedd 9-13) a cholegau AB | y Myfyrwyr<br>➢ Consortiwm<br>➢ Marchnata | | Ebrill 2023 | cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| | | | | Gorffennaf 2023 | | |
| Cadw myfyrwyr | ➢ Defnyddio'r system Cydweithredwyr Myfyrwyr (cynrychiolwyr myfyrwyr) o fewn rhaglenni astudio AGA Yr Athrofa i nodi/ethol Cynrychiolydd Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rôl arbenigol i gynrychioli lleisiau darpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd hon yn fenter newydd. | ➢ Arweinydd Gweithredol a Gweithgor y Rhaglen Tiwtor Personol<br>➢ Undeb y Myfyrwyr | Medi 2022 (Tymor canolig) | Medi 2022 | ➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le ac sy'n cwblhau eu rhaglenni astudio'n llwyddiannus. | |
| | | | | Mehefin 2023 | | |
| | | | | Medi 2023 | | |
| | | | | Mehefin 2024 | | |

**Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA**
**Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | ➢ Parhau i adolygu a mireinio cynnwys modylau a manylebau asesu fel bod egwyddorion cyfiawnder hiliol a safiad gwrth-hiliol yn cael eu gwreiddio o fewn cwricwlwm AGA Yr Athrofa. | ➢ Pob Tîm Modwl a Thîm Llwybr SAC<br>➢ Tîm Strategol Addysgeg a'r Cwricwlwm<br>➢ Tîm Strategol Asesu | Medi 2022 (Tymor canolig) | Mehefin 2022<br>• Diwrnodau cynllunio'r Tîm AGA<br>• Hunanwerthusiad arweinwyr modylau | ➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le ac sy'n cwblhau eu rhaglenni astudio'n llwyddiannus. | |
| | | | | Mehefin 2023 | | |
| | | | | Mehefin 2024 | | |
| | ➢ Adolygu a mireinio prosesau a gweithdrefnau'r Profiad Addysgu Proffesiynol i gynnwys canllawiau | ➢ Tîm y Bartneriaeth a Thîm Llwybr SAC<br>➢ Rachel Bendall | Medi 2022 (Tymor canolig) | Medi 2022 | ➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mwy penodol yn ymwneud â chefnogi darpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol tra ar leoliad yn yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys addasu'r ffurflen dewis lleoliad fel y gellir ystyried pryderon posibl ynghylch cael eu rhoi mewn ysgolion sydd â disgyblion gwyn yn bennaf.<br>Bydd angen ystyried hefyd ddarpar athrawon Gwyn a allai gael eu rhoi mewn ysgolion mwy amrywiol, a sut y cânt hwy eu cefnogi i fodloni anghenion pob dysgwr mewn ffordd gynhwysol. | | | Ionawr 2023 | ➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le ac sy'n cwblhau eu rhaglenni astudio'n llwyddiannus. | |
| | | | | Mehefin 2023 | | |
| | | | | Medi 2023 | | |
| | | | | Ionawr 2024 | | |
| | | | | Mehefin 2024 | | |
| | ➢ Rhoi manylion mwy penodol ynghylch | ➢ Gwasanaethau Myfyrwyr | Medi 2022 (Tymor byr) | Medi 2022 | ➢ Adborth cadarnhaol gan | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cefnogaeth i ddarpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a chyfeirio'n glir at ffynonellau i gael y gefnogaeth hon. | ➢ Undeb y Myfyrwyr<br>➢ Cydweithredwyr Myfyrwyr<br>➢ Tiwtoriaid Personol | | Ionawr 2023<br>Mehefin 2023<br>Medi 2023<br>Ionawr 2024<br>Mehefin 2024 | ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le ac sy'n cwblhau eu rhaglenni astudio'n llwyddiannus. | |
| | ➢ Nodi mentoriaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd eisoes yn gweithio yn ein hysgolion Partneriaeth i i) cael gwell syniad o'r niferoedd; ii) recriwtio rhagor; iii) galw ar eu harbenigedd a'u profiadau bywyd i fentora myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig | ➢ Tîm y Bartneriaeth a Thîm Llwybr SAC<br>➢ Consortiwm | Ionawr 2023 (Tymor canolig) | Ionawr 2023<br>Mehefin 2023 | ➢ Rhaglen fentora wedi'i theilwra mwy ar gyfer darpar athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Leiafrifol ar draws ein rhaglenni AGA ac i mewn i'w gyrfaoedd cynnar. | | | Ionawr 2024 | ➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nifer yr ymgeiswyr sy’n ymgymryd â’u cynnig am le ac sy’n cwblhau eu rhaglenni astudio’n llwyddiannus. | |
| | | | | Mehefin 2024 | | |
| **Profiad** | Galluogi'r holl fyfyrwyr a’r staff i gael profiad cadarnhaol a boddhaus yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol | | | | | |
| Ymchwil | ➢ Ymgymryd ag ymchwil ar raddfa fach i faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | ➢ Dr Vicky Anderson<br>➢ Rachel Bendall<br>➢ Cyfarwyddwr Ymchwil | Mehefin 2023 (Tymor hir) | Medi 2023 | ➢ Prosiectau ymchwil ar raddfa fach wedi’u cynnal a’r canfyddiadau wedi’u rhannu yn Yr Athrofa, ar draws y Bartneriaeth, ar draws consortia a thrwy gyhoeddiadau cenedlaethol. | |
| | | | | Mehefin 2024 | | |
| | | | | Medi 2024 | | |
| | | | | Mehefin 2025 | | |

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adferiad | ➢ Defnyddio daucanmlwyddiant y Brifysgol eleni (1822-2022) i dynnu sylw at ei hanes a'i chysylltiad â gwrth-gaethwasiaeth fel cyd-destun unigryw ar gyfer amlygu ymrwymiad Yr Athrofa i gyfiawnder cymdeithasol, cyfiawnder hiliol a gwrth-hiliaeth. | ➢ Dr Vicky Anderson<br>➢ Rachel Bendall<br>➢ Cyfarwyddwr AGA<br>➢ Marchnata | Medi 2022 (Tymor byr) | Ionawr 2023<br>Ebrill 2023<br>Gorffennaf 2023 | ➢ Adborth cadarnhaol gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |
| **Deilliannau** | Gwella deilliannau i staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig | | | | | |
| Adolygu a Mireinio | ➢ Defnyddio'r prosesau canlynol i fonitro, gwerthuso ac adolygu cynnydd, ac i nodi camau dilynol:<br>• Arolwg Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>• Llais y Myfyrwyr (Cydweithredwyr Myfyrwyr a<br>• Chynrychiolydd Tegwch, | ➢ Dr Vicky Anderson<br>➢ Rachel Bendall<br>➢ Pob Tîm Strategol | Medi 2022 (Tymor hir) | Yn parhau tan fis Mehefin 2025 ac yn cynnwys yr holl bwyntiau adolygu fel y nodwyd uchod. | ➢ Cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'u cynnig am le. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amrywiaeth a Chynhwysiant)<br>• Gwerthusiadau diwedd modwl | | | | | |

# Recriwtio a Chadw Darpar Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn AGA
# Cynllun Gweithredu: Mehefin 2022 – Mehefin 2025

## Cyfeiriadau


Aguilar, R. (2020) 'The Importance of Grow Your Own Programs to Recruit Teachers of Color', *The Education Trust*, 2 December. Available at: https://edtrust.org/the-equity-line/the-importance-of-grow-your-own-programs-to-recruit-teachers-of-color/ (Accessed: 20 July 2022).

Burgess, T. (1789) *Considerations on the Abolition of Slavery and the Slave Trade, Upon Grounds of Natural, Religious, and Political Duty*. D. Prince and J. Cooke; J. and J. Fletcher: and by Elmsly, White, Payne, Cadell, London.

Fraser, A. (2022) 'The University of Wales – SVG connection', *Searchlight*, 4 February. Available at: https://www.searchlight.vc/dr-fraser/2022/02/04/the-university-of-wales-svg-connection/ (Accessed: 14 July 2022).

Harford, J.S. (1840) *The Life of Thomas Burgess, D.D.: F.R.S., F.A.S., &c. &c. &c., Late Lord Bishop of Salisbury*. Longman, Orme, Brown, Green & Longmans.

James, S. and Fitt, D. (2022) *Initial Teacher Education Wales, 2020/21*. Welsh Government, p. 34. Available at: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-05/initial-teacher-education-september-2020-august-2021-052.pdf.

Master, B.K. and Doss, C.J. (2022) *'Grow Your Own' Prep Programs Can Improve Diversity of the Teaching Workforce*. Available at: https://www.rand.org/blog/2022/03/grow-your-own-prep-programs-can-improve-diversity-of.html (Accessed: 20 July 2022).

Scott, A. (2020) 'Universities, Race and Slavery: From Liverpool to Lampeter', *UWTSD Press Release*, 1 July. Available at: https://www.ydds.ac.uk/news/press-releases/press-2020/universities-race-and-slavery-from-liverpool-to-lampeter.html (Accessed: 18 July 2022).

UCL Department of History (2022) *St Vincent 567 (Camden Park)*, *Legacies of British Slavery database*. Available at: https://www.ucl.ac.uk/lbs/claim/view/25761 (Accessed: 14 July 2022).

University of Wales Trinity St. David (2021) *Race Equality Plan 2021-2024*. University of Wales Trinity St. David. Available at: https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/race-equality-plan-1-nov-2021-1.pdf (Accessed: 28 July 2022).

Welsh Government (2021) *Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group: final report*, *GOV.WALES*. Available at: https://gov.wales/final-report-black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-new-curriculum (Accessed: 28 July 2022).

Welsh Government (2022a) 'Anti-Racist Wales Action Plan', p. 128.

Welsh Government (2022b) *My Local School*. Available at: https://mylocalschool.gov.wales/?lang=en (Accessed: 28 July 2022).